# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 10fed Mawrth2025
Festri Capel Garnfadryn

Presennol: Terry Huws, Dafydd Williams, Gareth Jones, Deio Williams, Sian Parri, Alun Williams, Alan Hughes, Henry Hughes, John Daves, Sioned Pearson

Ymddiheuriadau: Chris Brady

1. Cadeirwyd gan Sioned Pearson, estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cyfnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Mynwent Newydd Tudweiliog-** Cafodd y Clerc sgwrs a Chris Brady cyn y cyfarfod, adroddodd fod y cais cynllunio ar planiau ar fin cael eu cyflwyno i'r Adran Gynllunio gan gwmni Hayden E Williams cyf.
   b. **Polisi Gosod Tai** – Adroddodd y Clerc fod ymateb wedi ei dderbyn gan Pennaeth Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd Carys Fon fel a ganlyn:
   'Yng nghyd-destun eich ymholiad am y polisi gosod, rydym ar hyn o bryd yn derbyn Cyngor cyfreithiol ar y mater hwn, ac fe ymatebwn yn llawn i'ch gohebiaeth yn dilyn hynny.'
   c. **Hysbysfwrdd –** Dywedodd y Clerc fod rhaid cyflwyno anfonebau am yr hysbysfyrddau cyn amser cino dranoeth i sicrhau derbyn y grant.

4. Gohebiaeth:
   a. **Cyflog y Clerc -** Cafwyd caniatad i'w dalu.

b. **Anfoneb Un Llais Cymru £198.00** – Derbynwyd caniatad i'w dalu.
c. **Dwr yn croni –** Derbynwyd ebost gan yr adran ffyrdd yn ein gwybyddu fod archwiliad wedi ei wneud o'r ffordd ger Castell Coch i Werglodd, Tudweiliog ac hefyd ar tro Waen Lon Tyddyn Mawr. Bydd unrhyw waith angenrheidiol yn cael ei wneud yn fuan.

Ch. **Llythyr Mr Peter Martin –** Derbynwyd ebost gan Mr Martin oedd Yn dweud fod ei gartref ar ardd yn dioddef gan lifogydd. Mae eisioes wedi cysylltu a Cyngor Gwynedd a Liz Saville. Yn anffodus nid oes unrhyw beth mwy all y Cyngor Cymuned ei wneud. Bydd y Clerc yn gwybyddu Mr. Martin.

d. **Cais Cynllunio C25/0121/46/DT Nant Llangwnnadl -** Cefnogi

5. Unrhyw fater arall
   a. Cyflwr ffordd Beudu Bigyn i Sarn – Derbynwyd cwyn unwiath eto fod gwyneb y ffordd yn ddrwg iawn, mae'n beryglus i gerddwyr a beicwyr. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran Priffyrdd.
   b. Gor yrru – daeth pryder i law fod ceir yn parcio ym maes parcio Ysgol Tudweiliog pan yn mynychu'r Lion. Pan yn teithio i ac o'r maes parcio mae'r cerbydau yn gor yrru. Mae'r mater o gyflymder ar y darn yma or ffordd wedi cael ei ymchwilio sawl tro gan yr adran ffyrdd, heb ddim tystiolaeth o yrru Penderfynwyd mai mater i'r Ysgol ydi'r ffaith fod cerbydau yn parcio yn eu maes parcio .

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Ebrill 14eg am 7.30yh
Festri Capel Tudweiliog.